Canllawiau ar storio plaladdwyr ar gyfer ffermwyr a defnyddwyr proffesiynol eraill

Taflen wybodaeth HSE

Taflen Wybodaeth Amaethyddiaeth Rhif 16W

Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn darparu canllawiau ar gyfer defnyddwyr plaladdwyr proffesiynol ar safonau addas ar gyfer eu storio. Trwy ddilyn y canllawiau hyn, bydd defnyddwyr proffesiynol yn helpu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n cynnwys cyngor ar:

- storfeydd sefydlog, gan gynnwys storfeydd a adeiladwyd i'r pwrpas, adeiladau neu rannau o adeiladau a addaswyd a storfeydd ar raddfa fach mewn cabinetau, cistiau ac ati;
- storfeydd symudol sy'n darparu storfeydd byrdymor i ffwrdd o'r prif leoliad mewn cerbydau, ar danceri symudol a chwistrellwyr ac ati;
- storio meintiau bach o blaladdwyr penodol y mae eu nodweddion cemegol peryglus yn golygu bod rhaid cymryd rhagofalon ychwanegol.

Nid yw'n ymdrin â storio methyl bromid, storio plaladdwyr gan gyflenwyr (sy'n cynnwys contractwyr sy'n cyflenwi plaladdwyr), na chludo plaladdwyr o gyflenwyr i'r defnyddiwr terfynol. Os ydych yn cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau hyn dylech ymgynghori â *Code of Practice for suppliers of pesticides to agriculture, horticulture and forestry* DEFRA (y Cod Melyn).

Os ydych yn storio plaladdwyr hylosg megis cynhyrchion atal tyfiant, cyfeiriwch at lyfryn canllaw HSE *The storage of flammable liquids in containers*.

At ddibenion y daflen wybodaeth hon ystyr 'defnyddiwr proffesiynol' yw unrhyw un sy'n defnyddio plaladdwyr fel rhan o'i fusnes neu ei waith, naill ai fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig.

Storfeydd sefydlog

Beth yw eich anghenion storio?

Maint

- Mae angen i'r storfa fod yn ddigon mawr i ddal eich anghenion mwyaf o ran plaladdwyr ac unrhyw gynwysyddion sydd wedi'u rhannol ddefnyddio, ac mae angen iddi fod yn ddigon mawr i allu ymdopi â stoc sy'n cael ei chadw drosodd o ganlyniad i dywydd gwael.
- Amcangyfrifwch gyfanswm tebygol y stociau a gedwir ar unrhyw adeg benodol - dylech gynnwys plaladdwyr megis pelenni gwlithod, gwenwyn llygod a chynhyrchion trin pren.
- Holwch a oes angen i chi wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer storio unrhyw rai o'r dosbarthiadau arbennig o blaladdwyr a restrir ar ddiwedd y daflen hon.
- Ystyriwch yr angen i storio cemegau eraill a allai fod yn beryglus a darparwch ar gyfer y meintiau tebygol.
- Darparwch ddigon o le i storio cynwysyddion gwag sydd wedi eu golchi â dŵr ac sy'n aros i gael eu gwaredu.
- Edrychwch i weld pa gyfleusterau eraill y gall fod angen i chi eu darparu (ee storfa ar gyfer offer halogedig, cyfarpar diogelu personol, cyfleusterau golchi ac ati) drwy ddarllen y cod ymarfer sy'n berthnasol i'ch gwaith gyda phlaladdwyr (gweler 'Darllen pellach').
- Cofiwch os yw'r storfa yn rhy fach y bydd staff yn gweithio dan amgylchiadau cyfyng, a byddant yn aml yn gorfod symud un cynnyrch er mwyn cyrraedd un arall.

Lleoliad

Cyn creu storfa newydd ymgynghorwch ag:

- adran gynllunio eich awdurdod lleol – efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch ar gyfer eich storfa;
- Asiantaeth yr Amgylchedd neu Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban (SEPA). Efallai eich bod mewn 'ardal amgylcheddol sensitif' megis parth diogelu dŵr daear neu i fyny'r afon o ddalgylchoedd cyflenwi dŵr.

Dylech leoli eich storfa i ffwrdd o fannau y mae perygl tân yn gysylltiedig â hwy ac o leiaf bedair metr oddi wrth:

- wair, gwellt, diesel, olew, paent, gwrtaith, papur, staciau coed, cynwysyddion nwy a deunyddiau hylosg eraill;
- anheddau domestig neu ffynonellau tanio megis sychwyr grawn neu weithgareddau weldio/llifanu.

Gwiriwch i ble y bydd unrhyw ddŵr ymladd tân halogedig yn draenio a:

- peidiwch â lleoli storfeydd gerllaw draeniau, cyrsiau dŵr, ffynhonnau a thyllau turio neu ardaloedd sy'n agored i lifogydd.

Helpwch i ddiogelu pobl, iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd rhag niwed.

Gwnewch yn siŵr:
- nad yw storfeydd cabinet yn cael eu lleoli mewn anheddau domestig, mannau manwerthu, ystafelloedd staff, swyddfeydd neu fannau lle y caiff bwyd pobl neu anifeiliaid ei storio neu ei brosesu;
- nad oes angen mynd trwy'r cyfryw fannau i gyrraedd storfa plaladdwyr o fewn adeilad mwy o faint;
- bod pob aelod o'r staff yn gwybod beth i'w wneud os bydd cemegau yn gollwng neu os bydd tân;
- bod mynediad hawdd ar gyfer danfoniadau plaladdwyr a'r gwasanaethau brys.

Os bydd damwain, defnyddiwch ddeunyddiau sugno anweithredol neu dywod i atal unrhyw ollyngiad rhag ymledu a'i sugno. Dylech gael gwared ag unrhyw ddeunydd neu hylifau halogedig yn ddiogel ar ôl ceisio cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu SEPA.

Adeiladwaith

Eich nod yw darparu storfa sy'n gallu gwrthsefyll tân a dal gollyngiadau/gorlifoedd (ee pe bai cynwysyddion yn toddi mewn tân), sy'n sych, heb rew, sydd wedi'i awyru'n ddigonol ac sy'n ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig. Ystyriwch y ffactorau canlynol:

Egwyddorion cyffredinol sy'n berthnasol i bob storfa
- Dylai'r storfa, gan gynnwys unrhyw ddrysau ond nid y to, fod wedi'i gwneud o ddeunyddiau a all wrthsefyll tân am 30 munud neu fwy.
- Dylai'r storfa, neu'r man lle y lleolir y storfa, allu dal gollyngiadau neu orlifoedd hyd at gyfaint o 110% o gyfanswm y cynhyrchion sy'n debygol o gael eu storio yno (185% os ydych mewn 'ardal amgylcheddol sensitif'). Byndio yw'r ffordd arferol o sicrhau hyn.
- Dylai'r bwnd fod wedi'i adeiladu'n gadarn o ddeunyddiau nad ydynt yn fregus sy'n gallu gwrthsefyll treiddio gan hylifau, ee metel (nid ffoil), concrit, briciau, slabiau carreg a chynhyrchion concrit. Efallai y bydd angen rendro neu selio'r deunyddiau adeiladu, yn enwedig wrth yr uniadau.
- Dylai'r bwnd gynnwys, neu ymestyn o amgylch, ymylon y storfa i gyd, ac ni ddylid amharu ar hyn gan fynedfeydd ac allanfeydd, er enghraifft, nac agoriadau lle y gall gwasanaethau fynd i mewn i'r storfa.
- Gellir creu bwnd trwy osod eich plaladdwyr mewn cynhwysydd metel digon mawr, ee tanc dŵr nad yw'n cael ei ddefnyddio. Cyn addasu unrhyw danc storio i greu storfa neu fwnd gwnewch yn siŵr ei fod yn addas ac nad yw wedi'i halogi, a'ch bod wedi cael gwared ag unrhyw hylifau/nwyon fflamadwy.
- Sicrhewch fod drysau/caeadau a ffenestri yn darparu diogelwch digonol ac yn cael eu cadw dan glo neu'n dynn ar gau pan na fyddant yn cael eu defnyddio.
- Ceisiwch sicrhau nad oes unrhyw gyflenwad dŵr yn mynd trwy'r man sydd wedi'i fyndio.
- Dylai fod to ar y storfa ei hun, neu'r man lle y'i lleolir.

Adeiladau a gynlluniwyd i'r pwrpas

Cofiwch am yr egwyddorion cyffredinol a nodwch:
- mai'r ffordd orau o adeiladu byndiau yw fel rhan integredig o'r sylfeini, y llawr a'r waliau ac wedi'u gosod o dan lefel y ddaear;
- pan fwriedir gosod esgynfeydd er mwyn i wagenni fforch-godi drafod plaladdwyr, y dylent godi yn ddigon graddol fel na chaiff y llwyth ei ansefydlogi (ee llethr < 5°).

Addasu strwythurau sy'n bodoli eisoes – adeiladau ar wahân

Sicrhewch fod eich adeilad/man yn bodloni'r egwyddorion cyffredin a:
- symudwch ddeunyddiau hylosg;
- crëwch fwnd wedi'i selio;
- seliwch ddraeniau mewnol.

Addasu strwythurau sy'n bodoli eisoes – storfeydd o fewn adeiladau mwy o faint

Dylech weithredu yn yr un modd ag ar gyfer adeiladau ar wahân, yn ogystal â'r canlynol:
- dylai mynediad i'r storfa agor yn uniongyrchol i du allan yr adeilad ble bynnag y bo modd;
- dim ond pan fydd adeiladwaith y storfa a'r adeilad lle y lleolir y storfa yn bodloni'r egwyddorion cyffredin, gan gynnwys byndio, y mae storfeydd o fath cawell yn dderbyniol;
- cofiwch fod tân yn aml yn ymledu trwy'r gofod yn y to – ystyriwch yr angen am waliau sy'n gwrthsefyll tân sy'n ymestyn i'r to.

Addasu strwythurau sy'n bodoli eisoes - cyrff lorïau, cynwysyddion ar longau ac ati

Cofiwch am yr egwyddorion cyffredin a:
- peidiwch â defnyddio cyrff lorïau sydd â lloriau neu ochrau pren;
- crëwch fwnd trwy osod sil ar draws y drws neu drwy wyro'r storfa i ffwrdd o'r fynedfa;
- gwnewch yn sŵr nad oes unrhyw bibellau awyru isel;
- edrychwch yn rheolaidd i sicrhau nad yw'r uniadau o'r wal i'r llawr wedi dirywio.

Storfeydd cabinet/bin/cist

Cofiwch am yr egwyddorion cyffredin a:

- nodwch fod cabinetau masnachol a adeiladwyd at ddibenion storio plaladdwyr ar gael;
- astudiwch y cyngor yn yr adran 'Lleoliad' a sicrhewch fod eich storfa'n gadarn ac wedi'i lleoli'n gywir i ffwrdd o draffig;
- gosodwch rewgistiau cist â leinin mewnol o ffoil neu blastig o fewn man wedi'i fyndio;
- gosodwch fwnd y tu mewn i gabinetau metel neu gosodwch hwy o fewn man wedi'i fyndio;
- sicrhewch fod pob cabinet ac ati yn ddiogel neu lleolwch hwy mewn man diogel.

Trefnu eich storfa

- Gosodwch yr arwydd rhybudd perygl cyffredinol (gweler y diagram) ar du allan y storfa (a thu allan yr adeilad, pan fydd y storfa mewn adeilad mwy o faint).



- Rhowch arwyddion gwaharddol 'Dim Smygu' neu 'Gwaherddir Smygu a Fflamau Noeth' (gweler y diagramau) ar ddrws allanol y storfa.



- Darparwch silffoedd digonol fel bod y staff yn gallu gweld y cynhyrchion.
- Storiwch bowdrau uwchben hylifau (gall hylifau ollwng os caiff cynwysyddion eu difrodi).
- Darparwch oleuadau digonol er mwyn i chi allu darllen y labeli.
- Diogelwch y stoc rhag rhew – nid yw gwresogyddion olew neu nwy neu offer trydanol gydag elfennau agored yn addas.
- Ceisiwch osgoi storio cynwysyddion plastig yng ngolau'r haul – cysgodwch y ffenestri os oes angen.
- Os defnyddir paledau i gadw stociau oddi ar y llawr sicrhewch nad oes perygl y bydd rhywun yn baglu drostynt a bod capasiti'r bwnd yn parhau i fod yn ddigonol.
- Lagiwch bibellau dŵr.
- Darparwch frwsh, rhaw, gronynnau amsugno/tywod a chynhwysydd anhydraidd i ddelio ag unrhyw ollyngiadau neu ddrymiau/pecynnau sy'n gollwng.
- Arferwch reolaeth storfa dda trwy sicrhau y ceir gwared â phecynnau cardbord gwastraff, bod hen stoc yn cael ei defnyddio, bod cynhwysyddion sydd wedi'u difrodi neu sy'n dirywio yn cael eu gwaredu'n gywir ac y cedwir cofnod stoc cyfredol (i ffwrdd o'r storfa).
- Dylai fod gennych gofnod stoc manwl gywir yn ogystal â rhifau ffôn defnyddiol, gan gynnwys eich gwasanaeth tân lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd (SEPA yn yr Alban).

Storfa symudol

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â storio plaladdwyr, fel arfer am lai na 24 awr, mewn cerbydau, tanceri symudol a chwistrellwyr a stociwyd o storfa sefydlog.

Dylech sicrhau bod pob plaladdwr yn cael ei gludo'n ddiogel i'r safle lle y bydd yn cael ei ddefnyddio a'i fod yn parhau i gael ei storio'n ddiogel ar y safle.

Peidiwch **byth** â chludo plaladdwyr yng nghaban tractor, mewn chwistrellwyr hunanyredig nac mewn unrhyw gerbydau eraill, ac ystyriwch y pwyntiau canlynol cyn i chi gludo plaladdwyr cryf i safle lle y bwriedir eu defnyddio;

- Defnyddiwch gerbyd gyda phared o'r llawr i'r nenfwd rhwng adran y gyrrwr/teithiwr a'r rhan o'r cerbyd lle y cludir llwythi.
- Os nad oes gan y cerbyd unrhyw bared, gosodwch gynwysyddion cemegol diogel neu darparwch gabinet diogel wedi'i osod ar du allan y cerbyd neu ar ôl-gerbyd.
- Sicrhewch nad oes unrhyw fargodiadau yn y rhan o'r cerbyd lle y cludir llwythi a allai ddifrodi cynwysyddion.
- Gosodwch yr arwydd rhybudd perygl cyffredinol ar y rhan o'r cerbyd lle y cludir llwythi.

Pan fyddwch i ffwrdd o'ch storfa sefydlog, dylai plaladdwyr bob amser fod yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig:

- Parciwch eich storfa symudol i ffwrdd o unrhyw leoliad lle y gallai lygru dŵr.
- Ceisiwch weithio yng ngolwg eich storfa symudol – yn enwedig mewn mannau y gall fod gan y cyhoedd fynediad iddynt.
- Clowch y cabinet neu'r cerbyd pan nad ydych yn gofalu amdano.

Ar ddiwedd y dasg:
- sicrhewch fod y caeadau/capiau ar unrhyw gynhyrchion a ddefnyddiwyd yn rhannol yn ddiogel cyn y daith yn ôl i'r storfa sefydlog;
- sicrhewch eich bod yn mynd â phob cynhwysydd gwag, deunydd pacio ac offer eraill yn ôl i'r storfa cynwysyddion gwag;
- dychwelwch blaladdwyr nas defnyddiwyd i'ch storfa sefydlog.

Rhagofalon ychwanegol ar gyfer mathau arbennig o blaladdwyr

Mae'r canllawiau yn yr adran hon yn ymwneud â meintiau y gellir eu storio'n ddiogel mewn cabinetau, cistiau a biniau yn unig. Os oes angen i chi storio meintiau mwy o blaladdwyr, cysylltwch â Llinell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055.

Mae nodweddion cemegol peryglus rhai plaladdwyr yn golygu bod rhaid cymryd camau ychwanegol i'w storio'n ddiogel. Edrychwch i weld a ydych yn storio unrhyw rai o'r canlynol:

Cyfansoddion nwyo sy'n cael eu hactifadu gan wlybaniaeth

Mae pobl wedi marw o ganlyniad i storio'r cyfansoddion hyn yn wael mewn storfeydd sefydlog ac wrth eu cludo. Yn arbennig, gall defnyddio dŵr i ymladd tân roi'r gwasanaethau brys mewn perygl sylweddol. Darparwch gabinet storio ar wahân yn eich storfa sefydlog a ddylai fod:
- wedi'i wneud o fetel neu ddeunyddiau sy'n gallu gwrthsefyll tân;
- wedi'i leoli uwchben lefel bwnd y storfa ac i ffwrdd o olau uniongyrchol yr haul a ffynonellau gwres;
- yn ddigon sefydlog, ee trwy ei folltio i'r wal;
- wedi'i farcio 'Cyfansawdd Nwyo – Peidiwch â Defnyddio Dŵr'.

Wrth gludo'r cyfansoddion hyn, dylech leihau'r perygl y caiff pobl eu hamlygu iddynt pe bai damwain yn digwydd drwy:
- storio'r cyfansoddion nwyo mewn cynhwysydd gwrth-anwedd ar wahân o fewn y gofod llwytho;
- darparu rhyw fath o ddull o ddiogelu'r cynhwysydd yn y gofod llwytho, ee bolltio ffrâm i'r strwythur y gellir strapio'r cynhwysydd ynddi.

Plaladdwyr wedi'u marcio 'Ocsidydd' ('Oxidising Agent') – megis sodiwm clorad

Pan gânt eu cynhesu, mae ocsidyddion yn gollwng cryn dipyn o ocsigen a all beri i dân ymledu yn gyflym. Mae angen storfa ar wahân ar gyfer meintiau mawr. Fodd bynnag, gellir cadw hyd at 10kg yn eich storfa ar yr amod ei fod yn cael ei gadw mewn cynhwysydd sych sy'n gwrthsefyll tân i ffwrdd o ffynonellau gwres a phlaladdwyr eraill.

Darllen pellach

Code of Practice for suppliers of pesticides to agriculture, horticulture and forestry PB3529 DEFRA 1998 (y Cod Melyn)

Code of Practice for using plant protection products PB11090 DEFRA 2006 ISBN 0855211709

(Mae'r ddau God Ymarfer ar gael gan DEFRA Publications, ADMAIL 6000, London SW1A 2XX Ffôn: 08459 556000. Gellir eu lawrlwytho hefyd o wefan PSD: www.pesticides.gov.uk)

The storage of flammable liquids in containers HSG51 Llyfrau HSE 1998 ISBN 0 7176 1471 9

Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ac am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan: HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir lawrlwytho taflenni am ddim o wefan HSE: www.hse.gov.uk)

Am wybodaeth ynglŷn â iechyd a diogelwch, neu i adrodd anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyfarwyddyd hwn, ymwelwch â www.hse.gov.uk/. Gallwch weld cyfarwyddyd HSE ar-lein ac archebu cyhoeddiadau prisiedig o'r wefan. Mae cyhoeddiadau HSE ar gael hefyd o siopau llyfrau.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arferion da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod o gymorth ichi wrth ystyried yr hyn sydd angen ichi ei wneud.

© ⓗ Hawlfraint y Goron Os ydych yn dymuno ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon ymwelwch â www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion 05/96. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.